

2022-2023

# Adroddiad Sefydliadol #15

## Y cyfnod dan sylw: 1 Gorffennaf – 30 Medi 2022

Grŵp o blant yn mwynhau'r prosiect Tirluniau Telynegol **Credyd llun: Phil Boyd / Llenyddiaeth Cymru**

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Cynnwys

**Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Chipolygon**

Diweddariad gan Cyfarwyddwr Artistig a’r Cyfrawyddwr Gweithredol 3

Uchafbwyntiau chwarter 3 4

Ein lle yn y sector 6

Diweddariad Tŷ Newydd 7

**Ein heffaith:**

Uchafbwynt wrth gyflawni nod: Yr Argyfwng 8

**Cynnydd yn erbyn ein targedau**

Cyngor Celfyddydau Cymru 2022-23 10

Targedau Gweihredol 17

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant **19**

Uchafbwyntiau a diweddariadau Polisi **20**

**Gwersi i’w Dysgu**

Sefydliadol a Gweithredol 21

Gweithgaredd 22

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido CCC** a'n **gofynion adrodd mewnol** sy'n manylu ar yr effaith y gobeithiwn ei chael, ynghyd â’n **Gwersi i’w Dysgu.**

Dim ond cipolwg o'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni y mae targedau Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gynnig. Mae gennym yn ogystal broses Monitro Effaith drylwyr sy'n dangos sut mae ein holl raglenni'n cyfrannu at ein 7 Nod. Ym mhob Adroddiad fel yr un yma, byddwn yn amlygu un nod ar gyfer y chwarter ac yn adrodd yn fanylach ar yr ystadegau a'r straeon yr ydym wedi'u casglu.

Mae gennym hefyd ystod eang o dargedau gweithredol ar gyfer 2022-25. Ynghlwm wrth ein cynllun strategol mae llawer o gynlluniau gweithredol yn cynnwys Codi Arian, Adnoddau Dynol, Partneriaethau a Chymynroddion, Cynaladwyedd, Cyllid, EDI a Chyfathrebu. O fewn y rhain mae nodau SMART ar gyfer pob blwyddyn. Rydym yn mesur ein cynnydd yn erbyn y rhain yn chwarterol ac ym mhob Adroddiad Sefydliadol bydd trosolwg o'r cynnydd allweddol a wnaed / terfynau amser a gollwyd yn y chwarter.

# Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol

Yn chwarter 3, daeth blwyddyn hynod brysur yn Llenyddiaeth Cymru i ben. I ddathlu ein llwyddiannau yn 2022, fe gyhoeddwyd blog yn trafod rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn

Yn ein pencadlys newydd yn Nhŷ Newydd, daeth y rhaglen o gyrsiau preswyl agored i ben – y rhaglen gyntaf ers ailagor ar ôl pandemig COVID-19. A hwnnw'n dymor i swatio'n gynnes dan do, symudwyd y ddarpariaeth ar-lein wrth gynnig rhaglen o chwe chwrs blasu digidol yng nghwmni rhai o awduron newydd mwyaf cyffrous Cymru, a'r rheini'n tiwtora am y tro cyntaf. Yn eu plith roedd y bardd Abeer Ameer, a gyrhaeddodd restr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2022, a Sioned Erin Hughes, enillydd ifanc y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2022.  Cafodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd fwynhau Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Nhŷ Newydd fis Hydref, a dilynwyd hynny gan ddiwrnod cynllunio strategol creadigol i roi cyfle i'r tîm gweithredol gnoi cil wrth i ni baratoi at broses Adolygiad Buddsoddi'r Cyngor Celfyddydau yn chwarter 4.

Yn sgil dau gomisiwn mawr, parhaodd Hanan Issa, y Bardd Cenedlaethol, i arloesi yn ystod ei blwyddyn gyntaf yn y swydd. I ddathlu presenoldeb Cymru yng Nghwpan y Byd, darlledodd S4C fideo o'i cherdd, Mae'r Dorf yn Ymgynnull, a chafodd ei dehongliad o A Child's Christmas in Wales lwyfan blaenllaw ym Mhenwythnos Gaeaf Gŵyl y Gelli.

Lansiodd Connor Allen, y Children's Laureate, yntau fideo o'i gerdd, Keys to the Future, i edrych ar effaith technoleg ar iechyd meddwl plant. Wrth ymateb i hynny, bu Connor a Casi Wyn, Bardd Plant Cymru, yn trafod manteision treulio amser yn yr awyr agored a mwynhau byd natur ar Ddiwrnod Gweithredu Hinsawdd Ieuenctid, a hynny mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru. Cymerodd 350 o blant o 12 o ysgolion ran mewn gweithdai creadigol yn rhai o safleoedd awyr agored gorau'r Ymddiriedolaeth.

Rydyn ni'n camu i 2023 yn llawn cyffro a gobaith at y flwyddyn greadigol sydd o'n blaenau.

**Claire Furlong,** Cyfarwyddwr Gweithredol
**Leusa Llewelyn**, Cyfarwyddwr Artistig



Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Gweithgareddau

- A hithau'n flwyddyn ers eu penodi, bu Connor Allen, y **Children's Laureate**, a Casi Wyn, **Bardd Plant Cymru**, yn dathlu dechrau eu hail flwyddyn ar Ddiwrnod Barddoniaeth drwy weithio gyda 12 o ysgolion mewn partneriaeth â'r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol**.
- Ar ddechrau chwarter 3, cyhoeddwyd cyrsiau blasu digidol **Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd** yn yr hydref.
- Ar **Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd,** ac mewn partneriaeth â **Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru,** rhannodd ein **Children's Laureate** fideo wedi'i animeiddio o gerddi a grëwyd gydag ysgolion Caerdydd, yn dangos effeithiau technoleg ar iechyd meddwl plant.
- Agorodd **Gwobr Llyfr y Flwyddyn** i geisiadau gan gyhoeddwyr ac awduron hunangyhoeddedig wrth baratoi at wobrau 2023.
- Cyhoeddwyd ein prosiect diweddaraf ym maes yr Argyfwng Hinsawdd, **Llên mewn Lle**, mewn partneriaeth â **WWF Cymru**, gyda gweithdai'n dechrau yn Rhosgadfan a Rhondda Cynon Taf.
- Gwahoddwyd ysgolion i wneud cais am 50% oddi ar unrhyw weithdai gydag awdur o liw, fel rhan o'n prosiect **Cymru Ni**, sy'n cael ei gynnal mewn partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**.
- Mewn partneriaeth â **CADW,** bu Alex Wharton yn dathlu straeon Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a'u bywydau yng Nghymru. Cafodd Alex gymorth gan Iestyn Tyne i lunio'r cyfieithiad Cymraeg. Gallwch chi weld yr ymatebion creadigol fan hyn.
- Rhannodd Hanan Issa, **Bardd Cenedlaethol Cymru**, ddau gomisiwn pwysig: yn gyntaf, gyda **Chymdeithas Bêl-droed Cymru** i gefnogi Cymru yng Nghwpan y Byd ac yn ail, A Child's Christmas in Wales, i ddathlu 70 mlynedd ers y darllediad cyntaf o waith nodedig Dylan Thomas, a hynny gyda **Gŵyl y Gelli.**
- Agorodd y broses i wneud cais am ein **cwrs i Egin Awduron** gyda'r tiwtoriaid Darren Chetty a Iestyn Tyne. Bydd y cwrs rhad ac am ddim hwn yn Nhŷ Newydd yn canolbwyntio ar thema Cymreictod a Hunaniaeth.
- Ar y cyd â **Trafnidiaeth Cymru**, bu pobl ifanc yn dathlu'r System Trafnidiaeth Metro newydd yn Ffynnon Taf.

## Gweithrediadau

- Cyn yr adolygiad blynyddol yn 2023, aeth y staff ati i adolygu a diwygio'r holl **bolisïau mewnol.**
- Yng nghyfarfodydd yr **Uwch Dîm Arwain**, cafodd risgiau eu hadolygu a'u diweddaru, gan ychwanegu atyn nhw er mwyn adlewyrchu anghenion y sefydliad.
- Fis Tachwedd, cyflwynwyd **Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru** yn llwyddiannus i Gyngor Celfyddydau Cymru.
- Cyflwynwyd yr **Adroddiad Blynyddol** i'r Comisiwn Elusennau, a chyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau fis Rhagfyr.
- Bu newidiadau yn y Bwrdd, wrth i ni ffarwelio â Natalie Jerome ac Eric Ngalle Charles, ac **agorodd y broses recriwtio** am ymddiriedolwyr newydd a Dirprwy Gadeirydd.
- Bu pEGWa, penseiri o Gaernarfon, yn **ymweld â safle Tŷ Newydd** fis Rhagfyr i asesu'r gwaith pellach y mae angen ei wneud ar y Tŷ Haul ac i drafod ymhellach â'r contractwyr rydyn ni'n eu ffafrio, InnerWorld Designs. Bydd gwaith yn dechrau cael ei wneud yn chwarter 4. Dechreuodd y penseiri waith hefyd i asesu adeiledd Tŷ Newydd er mwyn creu **Cynllun Cadwraeth** newydd.



Bu'r **Children's Laureate** a **Bardd Plant Cymru** yn gweithio gyda dros **155** o fyfyrwyr ysgolion Ceredigion fis Hydref fel rhan o Ddiwrnod Barddoniaeth



Cynhaliwyd **2** gwrs Cymraeg yn Nhŷ Newydd, i awduron LHDTCA+ ac enillwyr ifanc Eisteddfod yr Urdd



Rhwng 11 Hydref a 5 Rhagfyr, roedd y broses ymgeisio ar gyfer **Gwobr Llyfr y Flwyddyn** 2023 ar agor.




Cafodd Hanan Issa, **Bardd Cenedlaethol Cymru**, ei chomisiynu gan Ŵyl y Gelli i goffau 70 mlynedd ers y darllediad cyntaf o A Child's Christmas in Wales gan Dylan Thomas



Cyhoeddwyd enwau hwyluswyr **Llên mewn Lle**, a dechreuodd y gwaith wrth i brosiect 'Gwledda' fynd at i blannu coed fis Rhagfyr




Rhannwyd cerdd 'Keys to the Future' y **Children's Laureate** ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd, mewn partneriaeth â **Choleg Brenhinol y Seiciatryddion** yng Nghymru



Gan weithio gyda CADW, bu **Alex Wharton** yn rhannu straeon Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru



Gwahoddwyd ysgolion i wneud ceisiadau am gymorth ariannol fel rhan o brosiect **Cymru Ni**



Agorodd y broses i wneud cais am ein **Cwrs i Egin Awduron** gyda'r tiwtoriaid Darren Chetty a Iestyn Tyne

# Ein lle yn y Sector

Mae'r holl staff yn Llenyddiaeth Cymru yn ymwneud yn helaeth â hwyluso gweithgareddau drwy'r sector, boed hynny drwy ateb ymholiadau gan awduron neu drwy roi cyflwyniadau mewn digwyddiadau cyhoeddus mawr. Mae'r canlynol ymhlith uchafbwyntiau'r chwarter diwethaf:

- Cafodd Claire a Leusa gyfarfod cychwynnol â **Cyhoeddi Cymru/Publishing Wales** i'w cyflwyno'u hunain a dysgu mwy am y grŵp. Byddan nhw'n dychwelyd y gwanwyn hwn i gyflwyno ein strategaeth, gan drafod sut gallwn ni weithio gyda'n gilydd a gyda chyhoeddwyr drwy Gymru.
- Arweiniodd Marvin 4 sesiwn hyfforddiant fel rhan o **brosiect Cynefin Cyngor Celfyddydau Cymru,** gan friffio athrawon a hwyluswyr celfyddydol ynghylch creu gorfod i gynnal sgyrsiau anodd am hil a hunaniaeth, a rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy brosiect Cymru Ni.
- Bu Leusa yn un o feirniaid **Gwobrau Celfyddydau a Busnes Cymru,** sy'n dathlu partneriaethau rhwng byd y celfyddydau a byd busnes.

Hyd yma eleni, mae ein staff wedi darparu dros **652** awr o weithgareddau sy'n cefnogi'r sector, sy'n golygu ein bod eisoes wedi rhagori ar ein targed blynyddol.

## Newid Diwylliant

- Mae Llenyddiaeth Cymru, ynghyd â'r Cwmnïau Cenedlaethol, wedi cael **£164,315** dros y ddwy flynedd nesaf gan **Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru**, a hynny i ddatblygu'r gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud o dan faner Amrywiaeth mewn Arweinyddiaeth. Mae hyn yn dilyn ymchwil a gomisiynwyd gan y grŵp i weithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'r **Theatr Genedlaethol** yn gweinyddu'r cyllid hwn ar ran y grŵp.
- Mae'r union gynlluniau ynghylch sut bydd yr arian yn cael ei wario wrthi'n cael eu datblygu, ond bydd y broses yn dechrau drwy benodi Rheolwr Prosiect i weithio ochr yn ochr â'r holl sefydliadau yn y meysydd hyn:
- Creu grŵp o ffrindiau beirniadol (sy'n cael eu talu) i sicrhau atebolrwydd
- Adolygu arferion mewn cwmnïau, gan gynnwys Adnoddau Dynol, i sicrhau bod gan sefydliadau ddiwylliannau cynhwysol
- Dylunio rhaglen i newid diwylliant gan gynnwys hyfforddiant
- Gwerthuso dulliau gweithio
- Rydyn ni'n falch o gefnogi'r gwaith hwn ac yn y misoedd nesaf, bydd y cynlluniau sy'n dangos sut byddwn ni'n cyfrannu'n dod yn fwy eglur.

# Diweddariad Tŷ Newydd

Wrth i'r dyddiau fyrhau a'r tywydd garwach gyrraedd, yn chwarter 3 y bydd ein rhaglen flynyddol o raglenni'n dirwyn i ben.  Mae godidowgrwydd Tŷ Newydd yn ystod y tymhorau braf yn gallu bod wrth fodd gwesteion sy'n talu, gan eu denu nhw yn ôl.

Ond mae'r ganolfan yn dal i fod yn brysur gydag encilion ysgrifennu a darllen preifat, cyfarfodydd, cyrsiau strategol, llogi preifat, encilion awduron Nant, ac wedi'i wasgu i mewn rhwng popeth – gwaith cynnal a chadw. Fe wnaethon ni hefyd groesawu tri grŵp o ymwelwyr pwysig i aros ar gyfer cyfarfodydd busnes, gan gynnwys Bwrdd ein Cyfarwyddwyr ar gyfer eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; Grŵp Llywio Strategaeth y Gymraeg Cyngor Celfyddydau Cymru; a rhai o Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd.

Yn chwarter 3, croesawyd dros **130 o westeion** i Dŷ Newydd. Cynhaliwyd un cwrs undydd Cymraeg, gan ddenu **6** awdur i ddysgu mwy am fythau a chwedlau'r Mabinogi gyda **Rhiannon Ifans.** Ac ymunodd **60 o awduron** â ni yn rhithwir yn Nhŷ Newydd, gan gymryd rhan mewn **6 o gyrsiau blasu digidol** gyda **Llŷr Titus**, **Sioned Erin Hughes**, **Casia Wiliam**, **Lesley Parr**, **Siân Hughes** a **Abeer Ameer** – dyma'r tro cyntaf i nifer o'r awduron roi cynnig ar diwtora. Roedd y tiwtoriaid Saesneg yn enillwyr ac yn awduron a gyrhaeddodd restrau byrion Gwobr Llyfr y Flwyddyn, gan barhau â'n nod o ddatblygu a dathlu awduron Llyfr y Flwyddyn yn flynyddol, y tu hwnt i'r seremoni ei hun.

Cynhaliwyd **4** cwrs strategol yn ystod y chwarter. Mae'r cyrsiau pwysig hyn yn cyd-fynd bob blwyddyn â'n rhaglen o gyrsiau sy'n creu incwm, ac yn cynnig cyfnodau preswyl yn rhad ac am ddim i grwpiau o awduron sy'n cael eu tangynrychioli (gan amlaf). Yn chwarter 3, fe wnaeth ein cyrsiau strategol ddarparu hyfforddiant i grŵp o awduron anabl fel rhan o'n prosiect Gwaith Comisiwn i Awduron; bu grŵp o 14 o awduron LHDTC+ yn canolbwyntio ar eu prosiectau ysgrifennu amrywiol yn y Gymraeg; daeth 8 o awduron ifanc ar ein Cwrs Olwen blynyddol i enillwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd; a chroesawyd **Casi Wyn, Bardd Plant Cymru** ac **Áine Ní Ghlinn, Laureate na nÓg** ar ymweliad preswyl lle buon nhw'n cyfieithu cerddi ei gilydd.

Cynhaliwyd **10 encil** yn Nant yn ystod chwarter 3, a llogwyd y lleoliad 3 gwaith hefyd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Cyrhaeddodd Nant **gapasiti o 43%** yn chwarter 3 – gyda'r ymdrech i ddenu awduron i archebu encilion ym mis Rhagfyr drachefn yn anodd ac yn siomedig. Yn 2023-24 byddwn ni'n datblygu encilion strategol yn Nant, gan gynnig wythnosau tawel neu wythnosau na allwn eu gwerthu i awduron ar incwm isel yn rhad ac am ddim drwy broses gystadleuol.

*"Roeddwn ni'n nerfus iawn cyn derbyn ar y dechrau, ond fe gefais i lawer o gymorth. Roedd hi'n beth da hefyd nad oedd y cwrs yn rhy hir, ac mai fi a ddewisodd y pwnc i'w gyflwyno. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr cael gwahoddiad i wneud hyn. Mae wedi rhoi hwb i fy hyder. Diolch yn fawr iawn!"*

- Un o diwtoriaid y cyrsiau rhithwir a gafodd brofiad yn tiwtora am y tro cyntaf.

Dywedodd **97%** o'r cyfranogwyr fod y cwrs yn Nhŷ Newydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant.

Cafodd **8** o ystafelloedd aros yn Hafoty eu paentio yn ystod chwarter 3, gan wneud mân welliannau dodrefnu er budd y gwesteion a fydd yn aros yn yr ystafelloedd hyn.






# Uchafbwynt wrth gyflawni nod: **Yr Argyfwng Hinsawdd**

**Yr Argyfwng Hinsawdd**: Rydyn ni eisiau gweithredu pan allwn ni i rwystro'r argyfwng hinsawdd rhag gwaethygu ymhellach, gan godi ymwybyddiaeth ein waith. Fe wnawn ni hyn hefyd drwy ffurfio partneriaethau â sefydliadau fel y World Wildlife Foundation a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal ag annog polisïau sy'n rhoi pwyslais ar y lleol ac ar gymunedau cydnerth.

Ym mis **Mawrth 2022**, aethon ni ati i agor proses gystadleuol ar gyfer pedwaredd rownd ein Gwaith Comisiwn i Awduron, gan wahodd hwyluswyr i ddylunio a darparu prosiectau ysgrifennu creadigol. Y nod oedd edrych ar y cysylltiad rhwng llenyddiaeth, llesiant a'r amgylchedd naturiol mewn partneriaeth â **Cyfoeth Naturiol Cymru**.

## Gweithgaredd: Gwaith Comisiwn i Awduron, The Long View

Roedd **Taylor Edmonds** a **Nasia Sarwar-Skuse** yn llwyddiannus â'u prosiect, The Long View, sy'n cefnogi **10** menyw o liw yng Nghaerdydd drwy weithdai ysgrifennu creadigol ac ymweliadau â byd natur.

Roedd y canlyniadau i'r cyfranogwyr yn cynnwys:

Mwy o ymwneud â byd natur a meithrin cymunedau, gydag unigolion yn disgrifio'r sesiynau fel rhai *"**Adfywiol, Agos-atoch** ac **Ymlaciedig**"*

Dywedodd yr hwyluswyr hefyd fod profiadau amrywiol y cyfranogwyr wedi cyfoethogi'r trafodaethau am fyd natur a'r amgylchedd, gan ychwanegu bod y ffaith bod y cyfranogwyr yn pontio'r cenedlaethau wedi golygu bod pobl yn aml yn teimlo eu bod ***"wedi teithio'n bell yn syml drwy wrando ar ei gilydd"***

> **We are small but part of something.**
> **We retreat in the winter and dream**
> **Of the long view from the wet sand**
> **Out to the horizon. *Ala mma*.**

-Dyfyniad o gerdd gymunedol

## Gweithgaredd: Gwaith Comisiwn i Awduron, Coeden Ysgrifennu

Comisiwn llwyddiannus arall oedd **Coeden Ysgrifennu**, a ddarparwyd gan **Gwyn Lewis** a **Dr Sarah Douglas**, mewn partneriaeth â **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**. Ynghyd â Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol y Bwrdd Iechyd, mwynhaodd rhieni newydd sesiynau Shinrin-yoku (ymdrochi yn y coed), gyda sesiynau ysgrifennu creadigol yn dilyn.

Cafodd effaith byd natur ar iechyd a llesiant eu canfod drwy ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddyliol Warwig-Caeredin (WEMWBS), yn ogystal ag adborth traddodiadol. Cyn bob sesiwn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi sgôr i'w hunain o dan ddatganiadau fel *"**Rydw i wedi bod yn teimlo'n dda amdana' i fy hun".*** Cyn y sesiwn gyntaf, y sgôr cyfartalog oedd **2.3** allan o 5. Ar ôl yr ail sesiwn, cododd y sgôr cyfartalog i **3.3** allan o 5, sef cynnydd o bron i **43%** mewn hyder/hunanhyder.

Cyn ac ar ôl y sesiynau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddefnyddio geiriau i ddisgrifio'u hunain fel rhieni. Cyn y sesiwn gyntaf, y gair mwyaf cyffredin oedd '**Gorbryderus**', cyn i hwnnw droi yn '**Cariadus**' ar ôl y sesiynau.

Mae'r prosiect hwn wedi rhoi templed ar gyfer cofnodi canlyniadau iechyd a llesiant wrth gynnal prosiectau argyfwng hinsawdd, a'r bwriad yw ei rannu'n ehangach.

# Uchafbwynt wrth gyflawni nod: **Yr Argyfwng Hinsawdd**

## Gweithgaredd: Trafnidiaeth Cymru

Yn ystod tymor yr hydref 2022, bu'r bardd **Mike Church** a'r darlunydd **Osian Grifford** yn gweithio gyda **Trafnidiaeth Cymru** a 24 o fyfyrwyr blwyddyn 4 yn Ysgol Gynradd Ffynnon Taf i annog y cenedlaethau iau i fynegi eu pryderon am ddyfodol ein planed.

Cafodd eu barddoniaeth a'u celf eu troi'n gasgliad o 'zines' a cherddi ar bosteri, sydd wedi'u harddangos yn yr ysgol ac yn yr orsaf drenau leol.

Dyma rai o'r canlyniadau a welwyd:

- Mwy o ymwneud â llenyddiaeth ymhlith myfyrwyr
- Datblygu perthynas newydd rhwng yr ysgol ac artistiaid lleol
- Mwy o wybodaeth am systemau trafnidiaeth lleol.

I ddarllen mwy am y canlyniadau cadarnhaol, a barn Trafnidiaeth Cymru ac athrawon, darllenwch ein stori newyddion fan hyn.






Darluniau gan Osian Grifford





Gweithdai Ffrwyth ein Tân

**Gweithgaredd:** Mewn partneriaeth â'r **World Wildlife Foundation**, prosiect peilot yw Llên mewn Lle a fydd yn galluogi **3** hwylusydd i drin a thrafod a cheisio deall yr argyfwng hinsawdd a natur, a hynny gyda'u cymunedau lleol drwy lenyddiaeth.

Mae'r artist **Siôn Tomos Owen** yn gweithio gyda chyfranogwyr **Grŵp Therapi Croeso i'n Coedwig** yn Rhondda Cynon Taf i greu dyddiadur dwyieithog gyda darluniau sy'n dangos sut mae'r grŵp yn cysylltu â byd natur. Mae Therapi Coedwig yn rhoi cyfle wythnosol i'r cyfranogwyr wella'u problemau iechyd meddwl drwy wahanol weithgareddau sy'n ymwneud â byd natur, gan gynnwys fforio a choginio prydau bwyd.

Ers mis Hydref 2022, mae Siôn wedi cymryd rhan mewn **5** encil yn y goedwig ac wedi cynnal **2** sesiwn adrodd straeon.

Mae cyfartaledd o **14** o gyfranogwyr yn y sesiynau, gydag o leiaf **50%** yn newydd i'r gweithgaredd.

> ***"Rwy'n ei chael hi'n anodd cerdded yn bell pan fydd hi'n bwrw fel hyn, ond mae angen y glaw neu fyddai gennyn ni ddim o hyn!"***
> **- Cyfranogwr**

Mae'r artist a'r gweithiwr creadigol, **Iola Ynyr**, yn gweithio gydag ysgol gynradd yn Rhosgadfan fel rhan o brosiect **Gwledda**.

Hyd yma mae'r prosiect wedi cefnogi **6** o gyfranogwr rheolaidd, sydd i gyd yn rhieni plant sy'n mynd i'r ysgol yno.

Yn ystod y sesiynau, bydd y cyfranogwyr yn mwynhau'r ardd wyllt a'r ardd lysiau, a dilynir hyn gan sesiwn ysgrifennu creadigol.

Fis Rhagfyr, cafodd plant yr ysgol, ynghyd â'r rhieni, fwynhau plannu coed ar dir yr ysgol gydag **Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.** Cafodd y coed eu meithrin yn lleol yng Ngwaith Powdwr Penrhyndeudraeth lle'r arferen nhw greu arfau i longau rhyfel.

Yn ystod y sesiwn hon, plannwyd dros **35** o goed.

Gall y cyfranogwyr edrych ymlaen at ragor o sgyrsiau gan bartneriaid lleol eraill, **GwyrddNi,** a byddan nhw'n mwynhau ffrwyth eu llafur mewn gwledd sydd i'w chynnal fis Mawrth. Y gobaith yw y bydd y cyfranogwyr yn meithrin digon o hyder i ddarllen rhywfaint o'u gwaith creadigol.





Gweithdai Gwledda. Credyd y ffotograff: Lindsay Walker Photography

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Diwylliant Llenyddol Cymru**: Sicrhau mwy o ymgysylltu, gwell hygyrchedd, a mwy o effaith drwy weithgareddau ysgrifennu creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Datblygu partneriaethau gydag o leiaf 3 o grwpiau cymunedol sy’n gweithio gyda grwpiau penodol sydd wedi’u tangynrychioli ar hyn o bryd yn Niwylliant Llenyddol Cymru. | Hyd yma mae **3** hwylusydd wedi’u dewis i weithio gyda chymunedau hynod leol fel rhan o brosiect **Llên mewn Lle.** Mae Siôn Tomos Owen yn gweithio gyda Croeso i’n Coedwig yn Nhreherbert, gan helpu unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl i gysylltu â byd natur. Mae Iola Ynyr yn gweithio gydag Ysgol Gynradd Rhosgadfan, yn cefnogi rhieni teuluoedd sydd ar incwm isel, tra bo The LUMIN Syllabus yn gweithio yn Abertawe, yn helpu pobl o liw a theuluoedd ar incwm isel i drafod eu perthynas â byd natur a’r amgylchedd lleol. Mae modd darllen mwy am y prosiectau fan hyn.<br>Yn chwarter 3, dechreuodd gweithgareddau hefyd gyda’r **Bartneriaeth Ddawns Somali**. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Cynyddu’r canllawiau sydd ar gael fel rhan o raglen ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau, gan helpu trefnwyr digwyddiadau llenyddol ledled Cymru i ddarparu digwyddiadau cynhwysol a hygyrch. | Yn mynd rhagddo: Yn ystod chwarter 3, dechreuodd y gwaith i ddiweddaru’r canllawiau a diwygiadau i’r ffurflen gais. Mae disgwyl cwblhau’r gwaith hwn ym mis Mawrth 2023, a bydd yn mynd yn fyw yn y flwyddyn ariannol newydd. | |
| Hyfforddi mwy o awduron drwy’r rhaglen Sgyrsiau Creadigol mewn themâu fel: diogelu, rhannu’r arferion gorau, a sut i ddarparu cyfleoedd llenyddol mewn lleoliadau cyfranogol. | Ers mis Ebrill, mae **6** o Sgyrsiau Creadigol wedi cael eu cynnal:<br>Gweithdai ar-lein cynhwysol gyda **Kittie Belltree** a **Sara Beer**<br>Gweithdai ysgrifennu creadigol cynhwysol i blant a phobl ifanc gyda **Connor Allen**<br>Dysgu’r Gynghanedd Mewn Ysgolion gyda **Siw Jones**<br>Cynrychioli iechyd meddwl yn ddilys mewn cymeriadau ffuglen gyda **Paul Whittaker** a **Tamsin Griffiths**<br>Creu eich cylchgrawn neu eich llyfr eich hun gyda’r cyhoeddwr **Jannat Ahmed.**<br>Mae bwriad i ailddatblygu’r sgyrsiau creadigol / yr hyfforddiant a fydd yn cael ei gynnig i awduron. Gweler y nodiadau yn y Pwyntiau Dysgu: Gweithgareddau (t24) i gael rhagor o wybodaeth. | |
| Buddsoddi £45,000 ar raglen sy’n ceisio helpu i ddarparu cwricwlwm amrywiol yng Nghymru, sy’n cynnwys rhoi £21,000 yn uniongyrchol i awduron o liw. | Mae **£9710** eisoes wedi’i roi’n uniongyrchol i awduron o liw gyda’r cyfanswm cyffredinol ar gyfer y flwyddyn yn cyrraedd **£16957**. Mae’r ffigur yn is na’r bwriad gwreiddiol, gan fod 1 awdur Gwyn wedi’i gomisiynu i gefnogi awdur arall fel rhan o weithdai sy’n edrych ar fudiadau newid cymdeithasol cadarnhaol yn hanes Cymru. Hefyd, cafodd rhai gweithdai eu hail-greu ar ffurf adnoddau fideo, sy’n golygu bod mwy o arian wedi’i roi i fideograffwyr nag awduron. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** : Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Sicrhau bod yr holl ddogfennau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau hygyrch, gan gynnwys fersiynau sy'n ystyriol o ddyslecsia. | Yn mynd rhagddo: Mae'r holl alwadau agored cyfredol yn cael eu darparu gyda ffurflen gais sy'n **ystyriol o ddyslecsia**.<br>Rydyn ni hefyd yn derbyn ceisiadau **sain** a **fideo** fel rhan o'n cyfleoedd proffil uchel, fel cynllun y Bardd Cenedlaethol.<br>Mae'r gwaith yn parhau i adolygu ac addasu'r darpariaethau presennol, fel ein hadnoddau. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Darparu trydedd rownd Cynrychioli Cymru, gan fuddsoddi'n ddwys mewn 14 o awduron, a'r rheini i gyd yn dod o gymunedau sydd wedi'u tangynrychioli. | Yn mynd rhagddo: Yn ystod chwarter 3, dechreuodd aelodau'r panel ar y broses sifftio, ac mae disgwyl penderfyniad terfynol fis Chwefror. Ar ôl ymgynghori'n fewnol, byddwn ni bellach yn cefnogi **13** o awduron yn ddwys. Gan ein bod ni'n agor y cynllun i ystod ehangach o nodweddion sy'n cael eu tangynrychioli, bydd hyn yn sicrhau bod gennyn ni ddigon o gyllideb at anghenion hygyrchedd.<br>Cwblhaodd staff **14** awr o waith ymgynghori<br>Cafwyd lansiad meddal, gyda'r ceisiadau'n agor ym mis Awst<br>Darparwyd **3** sesiwn yn rhad ac am ddim i ymgeiswyr posibl<br>Datblygwyd **cynllun marchnata Cymraeg** a chrëwyd taflenni a gafodd eu dosbarthu yn yr Eisteddfod<br>Anfonwyd e-bost at amrywiaeth o **randdeiliaid** i ledaenu'r gair. | |
| Drwy Cynrychioli Cymru, ymwneud â thua 300 o unigolion fel rhan o'r rhaglen ehangach. | Hyd yma, mae'r sesiynau agored wedi cyrraedd **130** o unigolion. Mae'r sgyrsiau wedi dechrau i wahaniaethu rhwng sesiynau agored Cynrychioli Cymru, cyrsiau ar-lein Tŷ Newydd, a hyfforddiant i awduron (Sgyrsiau Creadigol oedd yr hen enw ar hyn), a hynny i sicrhau bod ein cynnig ym maes Datblygu Awduron yn gyson drwy'r sefydliad. | |
| Monitro esblygiad y rhaglen a'i heffaith hirdymor, gan gynnwys ymwneud â'r grwpiau presennol o awduron. | Mae **grŵp o awduron 1** yn cael ôl-ofal ac mae disgwyl iddyn nhw lenwi arolygon ym mis Mawrth 2023; bydd ambell aelod yn cadw mewn cysylltiad am gyfnod hwy. Mae'r cyswllt hanner ffordd wedi'i gwblhau â **grŵp o awduron 2**, gyda'r sesiynau cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn wedi'u trefnu. Fis Chwefror, byddwn ni'n ymgynghori â **grŵp o awduron 2** am y cymorth sy'n dal i gael ei roi iddyn nhw fel rhan o'u rhaglen ôl-ofal. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Y Gymraeg:** Ymrwymo i ddatblygu ac achub ar y cyfleoedd y mae creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cynnig

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Cyflwyno eich Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i ddiweddaru | Cafodd y cynllun hwn ei **gyflwyno** i Gyngor Celfyddydau Cymru **fis Medi 2022**. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Hwyluso 5 o brosiectau partneriaeth a chyfarfodydd parhaus â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn llenyddiaeth plant yn y Gymraeg | Prosiectau partneriaeth<br>•Trafodwyd partneriaeth bosibl â Penguin Random House ar gyfer eu prosiect Lit in Colour.<br>•Ymunwyd â chynhadledd Books Trust Cymru ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a darllen er pleser.<br>•Cynhaliwyd y cwrs Stori i Bawb yn Nhŷ Newydd mewn partneriaeth â'r Cyngor Llyfrau<br>•Rydyn ni'n datblygu Rhaglen Fentora mewn partneriaeth â'r Cyngor Llyfrau i helpu awduron sy'n cael eu tangynrychioli i gyhoeddi yn Gymraeg<br>Fel rhan o brosiect Cadw, cyfieithodd Iestyn Tyne gerddi Alex Wharton i'r Gymraeg.<br>Fel rhan o brosiect Cymru Ni, crëwyd rhestr o destunau Cymraeg gyda Dr Ann Alston i'w defnyddio fel adnoddau i athrawon.<br>Cyfarfodydd â rhanddeiliaid<br>Cysylltwyd â Bethan Mai, Pennaeth newydd Adran Lyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen y Cyngor Llyfrau<br>Cynorthwywyd Race Equality First drwy ddarparu rhestr o destunau Cymraeg sy'n cynnwys cymeriadau o liw<br>Yn chwarter 3, datblygwyd perthynas ag EmpathyLab i ehangu eu rhestr ddarllen o destunau Cymraeg gan awduron sy'n cael eu tangynrychioli. | |
| Yr holl staff a'r Cyfarwyddwyr i gwblhau cwrs ymwybyddiaeth wedi'i deilwra mewn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. | Mae hyn wedi cael ei roi o'r neilltu tan bydd holl aelodau'r bwrdd wedi'u penodi. Rydyn ni hefyd yn edrych ar gomisiynu sesiwn hyfforddiant unigryw y gellid ei chynnig fel rhan o endid masnachol yn y dyfodol. | |
| Meithrin partneriaethau rhyngwladol â gwledydd eraill yr ieithoedd Celtaidd, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon a'r Alban. | Yn mynd rhagddo. Mae Leusa wedi parhau i sgwrsio â **Grŵp Llenyddiaeth y Pedair Cenedl** a fydd yn arwain at gydweithio agosach. Yn dilyn digwyddiad ar y cyd yng Ngŵyl y Gelli gyda'r Bardd Plant, y Children's Laureate a'r Laureate na nÓg, (Bardd Plant cyntaf Iwerddon sy'n siarad Gaeleg), croesawyd **Áine Ní Ghlinn** i **Dŷ Newydd** i encil barddoniaeth, gan gyfieithu cerddi i'r Gymraeg a'r Wyddeleg. Mae disgwyl i'n Children's Laureate a'n Bardd Plant ymddangos yn **Llyfryn Gŵyl Bologna**, a bydd Tîm Cynrychioli Cymru yn cwrdd â'r **Scottish Books Trust** yn chwarter 4 i rannu gwersi sydd wedi'u dysgu. | |

## Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Iechyd a Llesiant**: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Ehangu a datblygu ein partneriaethau cryf yn y maes iechyd a llesiant, gan gynnwys gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, y Reading Agency, byrddau iechyd lleol, a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru. | • Bu **Connor Allen**, ein Children's Laureate, yn gweithio mewn partneriaeth â **Choleg Brenhinol y Seiciatryddion** i drafod materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a thechnoleg. Rhyddhawyd fideo wedi'i animeiddio fis Hydref, ar **Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd**.<br>• Daeth prosiect Gwaith Comisiwn i Awduron 4, "Coeden Ysgrifennu", i ben yn chwarter 3, gan gefnogi mamau newydd mewn partneriaeth â **gwasanaeth amenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**.<br>• Mae **2** gynllun llesiant byrrach wedi'u cynllunio yn chwarter 4, rhwng **Valleys Steps**, **Risca Volunteers** a **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.** | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Datblygu dull strategol o greu partneriaethau cenedlaethol. | Mae'r **Cyfarwyddwr Artistig** a'r **Cyfarwyddwr Gweithredol** yn parhau i gwrdd â rhanddeiliaid a phartneriaid llenyddol, gyda'r nod o fapio'r sector er mwyn rhoi llwybr clir i awduron, cynulleidfaoedd a'r cyhoedd – ac i ddiffinio'n well ein cylchoedd gwaith unigol a dangos sut gellid gweithio mewn partneriaeth. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

## Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod:** Yr Argyfwng Hinsawdd: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Darparu Llên mewn Lle, hyfforddi beirdd lleol i fod yn hwyluswyr llenyddol dawnus. | Yn mynd rhagddo: Yn chwarter 3, dechreuodd gweithgareddau'r prosiect **Gwledda** yn **Rhosgadfan**, a **Ffrwyth ein Tân** yn **Rhondda Cynon Taf**. Dechreuodd Iola Ynyr ar gynllun mentora gyda clare e potter, a mwynhaodd yr hwyluswyr sesiwn hyfforddiant gan ein partneriaid cenedlaethol, **WWF Cymru**. Bydd gweithgareddau'r **LUMIN Syllabus** yn dechrau yn chwarter 4. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Canolbwyntio ar greu prosiectau lleol a datblygu cysylltiadau â'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau. | **Ar y gweill.** Mae meini prawf y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau wedi'u creu i helpu trefnwyr digwyddiadau lleol i gynnal digwyddiadau mewn ffyrdd cynhwysol, cynaliadwy ac effeithiol. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i gyfathrebu hyn yn effeithiol i ddarpar ymgeiswyr. Yn chwarter 3, defnyddiodd **12** o ysgolion y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau fel rhan o brosiect Cymru Ni, a hynny i gynnal **28** o weithdai a **2** wasanaeth, gyda rhagor i ddod yn chwarter 4. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

## Mesurau sefydliadol: Adnoddau Dynol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Recriwtio 2 gyfarwyddwr newydd i'r Bwrdd. | Daeth **6** o geisiadau i law. Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal ar **26 Ionawr** a bydd yr Ymddiriedolwyr newydd yn cael eu hystyried gan y Bwrdd llawn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd fis Chwefror 2023. | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Yr holl staff ac aelodau'r bwrdd i gael hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth ac ablaeth. | Yn chwarter, cafodd **2** aelod o staff hyfforddiant yn y maes gwrth-hiliaeth, a hwnnw wedi'i ddarparu gan Celfyddydau a Busnes Cymru a Race Council Cymru. Mae'r sgyrsiau'n dal i gael eu cynnal am roi hyfforddiant unigryw i bawb. | |
| Proses recriwtio'r Prif Weithredwr wedi mynd rhagddi'n llwyddiannus. | **Wedi'i gwblhau** 1 Medi 2022 – penodwyd 2 ymgeisydd, un yn Gyfarwyddwr Artistig a'r llall yn Gyfarwyddwr Gweithredol. | |
| Gweithio i leihau cymudo gan staff ac annog teithio llesol, gan gynnwys gosod pwyntiau gwefru ceir trydan yn Nhŷ Newydd. | Yn mynd rhagddo – Y cynllun seiclo i'r gwaith wedi'i gyflwyno, gyda **2** aelod o staff yn manteisio arno. Mae **Grant gan y Llywodraeth** (a fydd yn talu'n rhannol am osod man gwefru cerbydau trydan) wedi dod i law. Mae dau gontractwr trydanol wedi ymweld â'r safle i asesu ymarferoldeb gosod man gwefru i gerbydau trydan. Oherwydd adeiladwaith Tŷ Newydd a natur y tir o'i amgylch, byddai'n anodd iawn ac yn ddrud iawn gosod man gwefru i gerbydau trydan. Nid yw'r cyllid ar gael yn y flwyddyn ariannol hon i gyfiawnhau cost o'r fath. Bydd hyn yn cael ei roi fel rhagolwg yng nghyllideb 2023/24, a bydd trydydd trydanwr yn cael ei wahodd i roi dyfynbris am y gwaith. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

## Targedau Ychwanegol

| | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| **Codi Arian** | Datblygu polisi ynghylch codi arian yn foesegol (arian sy'n dod i mewn ac yn mynd allan). | Wedi'i gwblhau. Ar **24 Awst**, cynhaliwyd sesiwn a ariannwyd drwy gynllun **Prosper Celfyddydau a Busnes Cymru**, gan fynd i'r afael â chodi arian yn foesegol. Yn dilyn hyn, rydyn ni wedi creu dogfen gyhoeddus, **Ein Haddewid**, ynghyd â phroses fewnol ar gyfer asesu ffynonellau codi arian. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| **Gweithredol** | Cyflwyno'r gronfa ddata fewnol, newydd o awduron gan dracio data am gyfleoedd cyfartal sydd wedi'u rhoi gan yr awduron eu hunain ynghyd â gwybodaeth am arbenigeddau a nodau gyrfa'r dyfodol er mwyn galluogi Llenyddiaeth Cymru i ganfod cyfleoedd addas i awduron yn well, gan ddefnyddio iaith bersonol. | Yn mynd rhagddo. Cafodd casgliad gan yr ymgeiswyr aflwyddiannus am swydd y Bardd Cenedlaethol ei dreialu, gan arwain at **2** ymateb. Yn chwarter 3, rhannwyd y cyfle hwn â **592** o awduron, gan arwain at **27** o ymatebion. Mae'r gwaith yn parhau i wreiddio hyn yn yr holl alwadau newydd agored/caeëdig. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Gweithredol

## Uchafbwyntiau Chwarter 3

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Dymchwel Rhwystrau: Cwmpasu'r cyfleoedd i gefnogi prosiectau a sefydliadau eraill (e.e. cyflwyno mwy o amrywiaeth yn y cwricwlwm) ac ystyried hyn fel rhan o gynlluniau'r dyfodol. | Hyd yma rydyn ni wedi gwneud y canlynol:<br>• Gweithio gyda DARPL a'r consortia addysg rhanbarthol i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon, gan ganolbwyntio ar ddulliau addysgu gwrth-hiliol.<br>• Trefnu sgyrsiau estynedig â Llywodraeth Cymru am ddefnyddio ymatebion creadigol prosiect CADW fel adnodd addysgol.<br>• Cynorthwyo'r Reading Agency a Race Equality First i lunio rhestr o destunau Cymraeg sy'n cynnwys cymeriadau o liw.<br>Yn chwarter Q3: Fel rhan o'n prosiect Cymru Ni, mae awduron wrthi'n datblygu adnoddau dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon. Mae'r adnoddau digidol hyn yn rhoi canllawiau i athrawon ar gyfer cyflwyno mwy o amrywiaeth yn eu gwersi. | Cynllun Gweithgareddau 23-24 |
| **Recriwtio:** Gwreiddio'r cynllun cyfweliad wedi'i warantu ym mhroses recriwtio pob swydd. | Yn mynd rhagddo/ar y gweill. Cafodd hyn ei gynnwys yn y prosesau recriwtio diweddar ar gyfer y Rheolwr Creadigol, y Cydlynydd Creadigol ac aelodau newydd y bwrdd, yn ogystal ag yn y broses recriwtio sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd am Reolwr Rhaglenni. | Adroddiad blynyddol |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant; Partneriaethau:** Treialu prosiect ar y cyd â sefydliad partner newydd sy'n arbenigo mewn ennyn diddordeb a chefnogi'r grwpiau blaenoriaeth. | Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant; Partneriaethau: Treialu prosiect ar y cyd â sefydliad partner newydd sy'n arbenigo mewn ennyn diddordeb a chefnogi'r grwpiau blaenoriaeth.<br>Wedi'i gwblhau. Darparwyd encil mewn partneriaeth â Llyfrau Lliwgar yn Nhŷ Newydd i awduron LHDTCA+ yn chwarter 3; a threfnwyd partneriaethau gyda Celfyddydau Anabledd Cymru, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Made in Roath a'r Aurora Trinity Collective fel rhan o bedwaredd rownd Gwaith Comisiwn i Awduron, gan ganolbwyntio ar grwpiau blaenoriaeth. | Cynllun Gweithgareddau |

# Targedau Gweithredol

## Targedau a fethwyd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| **Cyfathrebu:** Anfon 3 o gylchlythyron gan y sefydliad at randdeiliaid | Ni chafodd y cylchlythyr i randdeiliaid ei anfon mewn pryd, oherwydd toreth o gyhoeddiadau cyfathrebu. Mae gan holl aelodau'r staff nodyn atgoffa yn eu calendrau i roi gweithgareddau/cyhoeddiadau yng nghalendr y wasg Llenyddiaeth Cymru, ac mae'r staff yn casglu rhestr o gyhoeddiadau i osgoi gorgyfathrebu. | Cynnyrch y gwaith cyfathrebu |
| **Gwaddol, Ymgynghori a Phartneriaethau:** Cynnal 2 sesiwn hyfforddiant i sefydliadau gan ddatblygu fframwaith effaith | Nid yw'r fframwaith effaith wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus ym mhob prosiect hyd yma. Mae fersiwn symlach wedi'i chreu ar gyfer 23/24. Bydd y tîm yn cwrdd ag ymchwilydd prifysgol yn chwarter 4 i edrych yn fanwl ar y prosesau effaith presennol, yn enwedig o ran creu dangosyddion ym maes iechyd a llesiant. | Cytundebau â sefydliadau |
| **Gwaddol, Ymgynghori a Phartneriaethau:** cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau ar gyfer awduron, gan gynnwys adnoddau mentora ar gyfer prosiectau cyfranogol, adnoddau ym maes llesiant, ac adnoddau ar gyfer gweithio gyda phobl greadigol anabl. At hynny, byddwn ni'n cyhoeddi canllawiau a fideos i egin awduron er mwyn datblygu eu sgiliau. | Dim cynnydd hyd yma, yn dal i gael ei ddatblygu. Mae cwestiwn yn yr Arolwg Rhanddeiliaid, sydd i'w ddosbarthu yn chwarter 4, yn gofyn yn benodol i awduron pa fath o adnoddau y bydden nhw'n hoffi'u gweld, er mwyn parhau i greu adnoddau defnyddiol a pherthnasol. | Cofnod o adnoddau cyhoeddedig, monitro ystadegau am eu defnydd ac adborth |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Cynnydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn y chwarter hwn, roedd sawl darn o waith comisiwn cyffrous yn barod i'w rhannu â chynulleidfaoedd, gan gynnwys ymatebion creadigol **Alex Wharton** i archwiliad Llywodraeth Cymru ym maes henebion cyhoeddus ac enwau strydoedd ac adeiladau sy'n gysylltiedig â'r fasnach gaethwasiaeth. Mewn partneriaeth â Cadw, fe wnaethon ni weithio i gomisiynu Alex i greu darnau creadigol a fyddai'n dathlu pobl Dduon nodedig yn hanes Cymru. Gweithiodd Alex gyda'r bardd Cymraeg Iestyn Tyne i gyfieithu'r cerddi i'r Gymraeg ac i berffeithio ynganiad Alex er mwyn creu perfformiadau Cymraeg o'r cerddi trawiadol hyn.

Bu **Hanan Issa**, ein Bardd Cenedlaethol, yn gweithio gyda Phenwythnos Gaeaf Gŵyl y Gelli i ddatgelu ei hymateb creadigol cyfoes i'r clasur Nadoligaidd, *A Child's Christmas in Wales*. Mae gwaith Hanan yn disgrifio'i phrofiadau hi'i hun o Nadoligau'r gorffennol, gan gnoi cil ynghylch sut ddyfodol sydd i'w mab. Meddai Hanan, "*Hoffwn pe gallwn ddweud bod Nadoligau, dathliadau Eid a gaeafau fy mab mor ddi-hid â'm rhai i neu rai Dylan Thomas*".

Parhaodd ein prosiect **Cymru Ni**, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Prosiect yw hwn sydd wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol ac i roi llwyfan i leisiau amrywiol mewn lleoliadau addysg. Cynhyrchwyd nifer o adnoddau addysgu a dysgu, gan gynnwys fideos dysgu proffesiynol a rhestrau darllen cryno gydag awgrymiadau ar gyfer addysgu. Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu rhannu'n eang ag ysgolion yn ystod chwarter 4.

Cynhaliwyd nifer o brosiectau ym maes cynrychiolaeth, amrywiaeth a chynhwysiant yn Nhŷ Newydd yn ystod y chwarter hwn, gwn gynnwys encilion rhad ac am ddim i grŵp o awduron LHDTC+ a grŵp o awduron dwyieithog 18 i 25 oed sy'n arddel hunaniaeth pobl Anabl, pobl Fyddar, neu bobl sydd â salwch cronig. Cafodd cyfres o 6 chwrs blasu digidol ei chynnal hefyd o dan faner Tŷ Newydd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr. Nod y cyrsiau blasu hyn yw bod yn fwy cynhwysol i bobl nad ydyn nhw'n gallu teithio i Dŷ Newydd, gan gynnig ffordd fwy hygyrch sy'n galluogi pobl i gael hyfforddiant mewn ysgrifennu creadigol o glydwch eu cartrefi.

Yn olaf o ran ein gwaith creadigol, cyhoeddwyd y gweithiau comisiwn llwyddiannus sydd i gael cyllid a chefnogaeth drwy ein prosiect Llên mewn Lle mewn partneriaeth â WWF Cymru. Ar ôl rhoi galwad am artistiaid i ddatblygu prosiectau ysgrifennu creadigol ym maes yr argyfwng hinsawdd a natur gyda chymuned o'u dewis nhw, mae'r prosiectau a ddewiswyd yn cynnwys prosiect yn Rhosgadfan, a fydd yn gweithio gyda chymuned incwm isel i dyfu llain lysiau gymunedol; prosiect yn Nhreherbert sy'n gweithio gyda chyfranogwyr i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl drwy ymwneud â byd natur; a phrosiect a fydd yn cynorthwyo pobl o liw a phobl o incwm isel yn ardal Abertawe i greu a chyhoeddi ymatebion i'r argyfwng hinsawdd a natur, a hynny o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Roedden ni hefyd wrth ein boddau o glywed bod cais, a gyflwynwyd ar y cyd gan Gwmnïau Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Cymru, wedi bod yn llwyddiannus wrth gael cyllid gan Lywodraeth Cymru i sefydlu rhaglen Amrywiaeth mewn Arweinyddiaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran Ein Lle yn y Sector. Cafodd dau aelod o staff hefyd hyfforddiant gwrth-hiliaeth dwys yn ystod y chwarter hwn, a byddan nhw'n cyflwyno'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu i holl dîm y staff.

*"Mae gweithio ar y prosiect hwn wedi bod yn brofiad hynod o drawsffurfiol i mi. Mae wedi dangos Cymru i mi nad oeddwn i'n ei hadnabod o'r blaen. Ac mae wedi rhoi ymdeimlad gwirioneddol o obaith, balchder ac ysbrydoliaeth. Ein straeon ni i gyd yw'r rhain, ac fy nyletswydd i fu dathlu'r bobl a'r bywydau maen nhw wedi'u byw. Mae'r holl lwch wedi'i ysgwyd – mae'r enwau hyn a nifer o rai eraill yma i ni edrych yn ôl arnyn nhw, eu hamgyffred, a phenderfynu sut i fwrw ymlaen. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle, diolch yn fawr."* **– Alex Wharton, 2022**



Llun o'r fideo, *Rosanne*, cerdd a luniwyd gan Alex Wharton ac a gyflwynwyd i Filwyr Duon y 320fed Bataliwn Balŵn Amddiffyn. Yn y cyflwyniad i'r gerdd ar wefan Cadw, maen nhw'n dweud: *"Ni ddyfarnwyd y Fedal Anrhydedd i unrhyw filwr Affricanaidd o America yn yr Ail Ryfel Byd."*

# Uchafbwyntiau a diweddariadau Polisi

## Cynnydd chwarter 3

Mae canlyniadau'r arolwg cynaliadwyedd a gynhaliwyd ymhlith y staff, a edrychai ar hanner cyntaf y flwyddyn, wedi cael eu dadansoddi. Amcangyfrifir bod 20% o'r teithiau cymudo posibl wedi'u gwneud mewn car gan bobl a oedd yn teithio ar eu pennau'u hunain, sy'n rhagori ar ein targed o sicrhau bod 75% o deithiau cymudo posibl yn osgoi gwneud hynny neu'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus/dulliau teithio llesol.  Ar ôl creu system ailgylchu ac arwyddion cliriach yng Nghanolfan Glyn Jones, mae 100% o'r staff wastad neu bron wastad yn sicrhau eu bod nhw'n ailgylchu'n gywir, a dim ond un aelod o staff a ddywedodd fod yr arwyddion yn rhwystr rhag ailgylchu'n gywir.

Ar ôl gweld canlyniadau'r arolwg staff, cafodd rhestr o gamau gweithredu i leihau effaith amgylcheddol Llenyddiaeth Cymru ei chyflwyno a'i rhannu â'r holl staff mewn cyfarfod staff.  Fel rhan o'r cyflwyniad hwn, rhannwyd cyfarwyddiadau i helpu i ddefnyddio gosodiadau sy'n arbed ynni ar liniaduron, gan leihau'r ynni sy'n cael ei wastraffu pan fydd gliniaduron neu gyfrifiaduron yn cael eu gadael mewn modd segur. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cyfarwyddiadau i ddefnyddio'r peiriant chwilio Ecosia sy'n defnyddio'r refeniw o hysbysebion i blannu coed.

Mae bin compost wedi'i osod yn Nhŷ Newydd ac yn cael ei ddefnyddio. Rydyn ni bellach wedi cael y cyfyngyddion dŵr gan Dŵr Cymru, a byddan nhw'n cael eu gosod yn ystod chwarter 4. Mae staff Tŷ Newydd wedi gwneud ymdrech bwrpasol i gau caeadau'r ffenestri yn ystod y gaeaf i osgoi colli gwres a lleihau'r allyriadau a gaiff eu creu wrth wresogi.

## Chwarter 3 Targedau a fethwyd

Dydy'r man gwefru i gerbydau trydan ddim wedi'i osod yn Nhŷ Newydd hyd yma. Cafwyd dyfynbris o £3,000 am y gwaith gosod, yn sgil maint y llafur y byddai ei angen i fwydo'r cebl o'r prif gyflenwad yn seler Tŷ Newydd i'r man gwefru. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r grant y bydden ni'n ei gael (hyd at £350), ond byddwn ni'n edrych i weld a oes modd bwydo cebl o Hafoty yn hytrach na'r prif adeilad (gallai'r pellter byrrach olygu y byddai'r gost yn is).

Mae nifer y tudalennau sy'n cael eu hargraffu wedi parhau i fod yn uwch na'r disgwyl, gyda 1,492 o dudalennau wedi'u hargraffu yng Nghanolfan Glyn Jones yn unig erbyn diwedd chwarter 3. Mae targed mwy realistig wedi'i osod at y flwyddyn nesaf, ac mae angen gwneud rhagor o waith i argraffu llai a sicrhau ein bod ni'n cyrraedd y targed newydd hwn.  Yn ôl yr arolwg staff, y rhesymau mwyaf cyffredin dros argraffu oedd at ddibenion postio, argraffu arwyddion neu bosteri yn Nhŷ Newydd, ac argraffu ffurflenni cydsynio neu ffurflenni iechyd a diogelwch. Mae'r atebion posibl yn cynnwys argymell bod staff yn argraffu labeli cyfeiriad niferus ar bob tudalen, ac annog defnyddio e-lofnodion fel y dull diofyn o lofnodi ffurflenni.

# Gwersi i'w Dysgu: Sefydliadol a Gweithredo

**Codi arian** – Dydyn ni ddim wedi gwneud y cynnydd a fwriadwyd at y targedau codi arian eleni. Mae'r rhesymau wedi amrywio, o anallu staff i ddelio â llwyth gwaith i amgylchedd allanol hynod o heriol wrth godi arian, gyda phartneriaid corfforaethol yn gorfod dygymod â'r argyfwng costau byw ac ymddiriedolaethau'n cael eu llethu gan geisiadau. Bydd cynnig llawn ar gyfer codi arian yn cael ei gyflwyno i un o gyfarfodydd y bwrdd, gan awgrymu atebion i'r problemau hyn, gan gynnwys penodi swyddog codi arian penodol a mireinio ein hachos dros ofyn am gymorth.

**Cronfa Ddata Fewnol Awduron** – Yn chwarter 3, fe rannwyd cyfle â 592 o awduron yng Nghymru drwy gylchlythyr i awduron, a anfonwyd drwy MailChimp. Er bod y dechneg hon ar gyfer cyfathrebu torfol wedi ein galluogi i gyrraedd nifer o bobl, dim ond 27 cofnod newydd a gawson ni o hyd. Dad-danysgrifiodd ambell unigolyn o MailChimp, a daeth y dolenni yn yr e-bost yn anweithredol. Ymhlith yr awduron rydyn ni'n gweithio gyda nhw'n aml, mae'r nifer sydd wedi manteisio ar y cyfle wedi bod yn isel. Byddwn ni nawr yn cynnwys y cyfle hwn ym mhob galwad a gwaith comisiwn newydd i awduron, ac yn parhau i ddatblygu cynllun cyfathrebu i egluro wrth awduron pam byddai bod yn rhan o'r gronfa ddata'n werth chweil.

**Canllawiau ar gyfer galwadau** – Rydyn ni ar ei hôl hi o ran ein targed i greu dogfen glir sy'n dangos pryd byddwn ni'n defnyddio galwadau agored a phryd byddwn ni'n defnyddio galwadau caeëdig neu gomisiynu uniongyrchol. Bu oedi yn y broses gan fod hwn yn ddarn cymhleth o waith. Rydyn ni wedi cefnu ar y sefyllfa ddiofyn lle byddwn ni'n cyhoeddi galwadau agored, ond yn teimlo y byddai treulio 6-9 mis yn treialu ac yn gwerthuso gwahanol ddulliau yn ein galluogi i gael y wybodaeth y mae ei hangen arnon ni i greu canllawiau clir.

**Ymchwil am daliadau i awduron** – Roedden ni wedi rhagweld y bydden ni'n cael canlyniadau ein hymchwil i ffioedd awduron, mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth, ym mis Medi 2022. Yn anffodus, bu oedi yn y broses wrth i'r ymchwilwyr gydbwyso hyn â'u hamserlenni addysgu. Rydyn ni bellach wedi cael y canfyddiadau cychwynnol, ond dydy'r rhain ddim wedi rhoi sylw i'r cyflwyniadau na'r cyfweliadau Cymraeg, felly does dim llawer o ddiben mynd ati i ddadansoddi'r canlyniadau a phenderfynu ar y camau gweithredu i Llenyddiaeth Cymru eto. Rydyn ni'n rhagweld y byddwn ni'n cael y canlyniadau terfynol erbyn diwedd mis Mawrth. Roedden ni wedi gobeithio gallu rhoi'r canfyddiadau ar waith wrth gyllidebu ar gyfer 23/24, ond gweithio gydag amcangyfrifon ydyn ni ar hyn o bryd. Yn y dyfodol, rydyn ni wedi sylweddoli y gallai fod angen i ni ragweld amserlenni hwy wrth weithio mewn partneriaeth â phrifysgolion, neu os bydd angen i ni wneud gwaith yn gyflym, efallai y bydd angen i ni gomisiynu a thalu am y gwaith yn annibynnol. Mae hyn wedi'i ystyried yng nghyllidebau'r dyfodol.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwersi i'w Dysgu: Gweithgaredd

| Gweithgaredd | Gwersi i'w Dysgu<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr 2022 | Argymhellion/ Gweithrediadau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| **Cwrs Olwen yn Nhŷ Newydd** | Yn draddodiadol, mae Cwrs Olwen wastad wedi'i gynnig i'r enillwyr (a'r rhai a ddaeth yn agos at y brig) yng nghystadlaethau llenyddol Eisteddfod yr Urdd.  Mae'n gam pwysig wrth feithrin perthynas hirhoedlog rhwng Llenyddiaeth Cymru ac awduron ifanc, talentog sy'n ysgrifennu yn Gymraeg. Mae'r prosiect yn hynod o llwyddiannus, a dylid ei ddathlu.<br>Mae dwy wers i'w dysgu: 1. mae gan y cwrs gapasiti bob blwyddyn i gynnig llefydd i fwy o awduron a allai elwa ohono; 2. gan amlaf, mae prinder amrywiaeth ymhlith y grŵp o awduron. | Gellid edrych ar ffurfio partneriaethau â sefydliadau eraill, e.e. Y Ffermwyr Ifanc neu gylchgronau Codi Pais, Y Stamp neu Cara i gynnig llefydd ar y cwrs i fwy o awduron ac awduron sydd wedi'u tangynrychioli; a/neu roi galwad agored drwy Lenyddiaeth Cymru. Dylid gwneud hyn yn gynnar (cyhoeddi'r alwad ym mis Medi / Hydref) er mwyn sicrhau bod capasiti'r cwrs yn llawn wrth groesawu'r awduron ifanc. |
| **Sgyrsiau Creadigol** | Nod y prosiect hwn oedd dod ag awduron a hwyluswyr creadigol ynghyd mewn ystafell rithwir i gael hyfforddiant gan awduron profiadol am bynciau penodol yn hanner cyntaf y sesiwn – a defnyddio'r recordiad o'r sesiwn fel adnodd fideo ar ein gwefan. Roedd ail ran y digwyddiad yn canolbwyntio ar hwyluso sgwrs greadigol rhwng y grŵp, annog rhannu arferion da, ac yn y pen draw, hybu mwy o weithgarwch llenyddol ar lawr gwlad. Nid oedd cymaint o bobl yn y digwyddiadau â'n gobaith, ac ni weithiodd y syniad o droi'r digwyddiad byw yn adnoddau – gan nad oedd ansawdd y recordiadau'n ddigon da a gan bod yr hyfforddiant yn aml wedi'i roi ar ffurf sgwrs ddwyffordd anffurfiol â'r gynulleidfa. | Rydyn ni wedi penderfynu ailddatblygu'r hyfforddiant y byddwn ni'n ei gynnig i awduron yn 2023+. Byddwn ni'n penderfynu ar gyfres graidd o bynciau sy'n berthnasol i awduron a hwyluswyr (diogelu, ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, hygyrchedd ac ati) ac yn sicrhau bod rhaglen gyson, o ansawdd da, yn cael ei darparu bob blwyddyn yn y ddwy iaith. Bydd adnoddau o ansawdd yn cael eu creu ar wahân. Bydd y cynnig rhithwir hwn ar gael ochr yn ochr â digwyddiadau hyfforddiant rhithwir cyhoeddus fel rhan o raglen Cynrychioli Cymru, tra bydd y cyrsiau mwy creadigol yn cael eu cynnig o dan faner Tŷ Newydd. |
| **Grym Geiriau  (un o brosiectau Gwaith Comisiwn i Awduron, Rownd 4)** | Encil yn Nhŷ Newydd oedd hwn ar gyfer awduron anabl a byddar, a chroesawyd nifer o awduron niwroamrywiol, gan helpu'r staff i ddysgu nifer o wersi newydd am sut i fod yn hygyrch hyd eithaf ein gallu wrth groesawu awduron niwroamrywiol. | - Parhau i roi Rhestr o Ofynion Hygyrchedd i awduron, a gofyn am gymorth gan Celfyddydau Anabledd Cymru neu sefydliadau arbenigol eraill os bydd gofyniad yn newydd neu'n aneglur – neu ofyn am gadarnhad gan yr awdur, neu gael sgwrs anffurfiol ymlaen llaw.<br>- Paratoi i fod yn hyblyg os cawn geisiadau arlwyo cymhleth ar y funud olaf yn ystod cyrsiau lle bydd awduron niwroamrywiol yn bresennol. |
| **Cynrychioli Cymru: Galwad am Geisiadau** | Roedd y gwersi a ddysgwyd yn ystod y ddwy rownd flaenorol wrth gyhoeddi galwadau Cynrychioli Cymru yn hynod o fuddiol eleni. Dangoswyd eto fanteision creu meini prawf ehangach ar gyfer bod yn gymwys wrth geisio denu nifer fawr o geisiadau – yn enwedig yn Gymraeg.  At y flwyddyn nesaf, mae rhagor o argymhellion i sicrhau ein bod yn cael mwy o geisiadau yn Gymraeg, mwy o geisiadau amrywiol, a cheisiadau o 3 ardal awdurdod lleol nad ydyn ni wedi llwyddo i'w cyrraedd eto. | - Ehangu ein hymgyrch yn Gymraeg, a chreu negeseuon unigryw i apelio at y gynulleidfa unigryw<br>- Targedu meysydd penodol, gan weithio gyda phartneriaid i gyrraedd awdurdodau lleol<br>- Datblygu'r sesiynau cwestiwn ac ateb ymhellach, er mwyn trafod manylion ymarferol y ffurflen gais<br>- Symleiddio'r broses fwyfwy. |